# SL(6)632 – Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2025

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003") yn gwneud darpariaeth ynghylch hyd y diwrnod ysgol, sydd fel arfer yn cael ei rannu yn ddwy sesiwn, ac i ysgolion gyfarfod am o leiaf 380 o sesiynau yn ystod unrhyw flwyddyn ysgol.

Mae Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2025 ("y Rheoliadau hyn") yn gwneud darpariaeth i ysgolion gael diwrnod hyfforddiant mewn swydd (HMS) ychwanegol yn y flwyddyn ysgol 2025-2026 er mwyn hyfforddi neu baratoi a chynllunio mewn perthynas â diwygiadau addysg allweddol, sef:

- lleihau effaith tlodi ar gynnydd a chyrhaeddiad disgyblion yn yr ysgol;
- gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ar gyfer disgyblion yn yr ysgol;
- y cwricwlwm sydd i'w ddarparu yn yr ysgol o dan Rannau 2 a 3 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021;
- y trefniadau asesu sydd i'w gwneud o dan Ran 4 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud y bydd hyn yn galluogi ysgolion i ymgysylltu'n briodol â'r materion hyn ac i fynd i'r afael ag anghenion datblygu eu hysgolion a'u staff yn unol â hynny.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae paragraff 7.8 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn y Memorandwm Esboniadol yn nodi effaith bosibl diwrnod HMS ychwanegol ar blant a theuluoedd:

> *"Credwn y byddai'r brif effaith ar blant a theuluoedd, yn enwedig y rhai ar incwm is. Wrth ystyried yr opsiynau, rydym wedi bod yn ymwybodol o'r cyd-destun economaidd presennol, a'r costau byw cynyddol. Byddai effaith fyrdymor ar blant fel grŵp gan y byddai diwrnod ysgol yn cael ei golli i bob un ohonynt. Fodd bynnag, yn y tymor hir byddai'r diwrnod HMS ychwanegol hwn yn ei gwneud yn bosibl darparu'r cwricwlwm newydd a diwygiadau eraill yn llwyddiannus, gan wella safon ac ehangder yr addysg y maent yn ei chael."*

Mae paragraffau 7.9 i 7.15 yn nodi y bydd cost i deuluoedd sy'n gweithio, lle y defnyddir gofal plant neu wyliau blynyddol i ymdopi â diwrnod HMS ychwanegol. Hefyd, mae ychwanegu diwrnod HMS ychwanegol yn golygu efallai nad yw plentyn oedran cynradd yn gallu cael pryd ysgol iach, maethlon am ddim y diwrnod hwnnw. Mae paragraff 7.16 yn dod i'r casgliad a ganlyn:

> *Ar y cyfan, felly, mae'r manteision i addysg dysgwyr yn sgil cyflwyno'r diwrnod HMS ychwanegol yn fwy sylweddol nag effaith peidio â chael mynediad at ddarpariaeth bwyd am 1 diwrnod o 190 diwrnod ysgol (yn ychwanegol at y 5 diwrnod HMS presennol).*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 14 Gorffenaf 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.